**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 11 Ebrill, 2024**

**Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Rhys Jones (Is-Gadeirydd)

Catherine Hughes

Phil Roberts

Wynne Davies

Gareth Roberts

Tesni Jones

Einir Lewis

Nia M Jones

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dafydd Ll Williams a'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth**
Cadarnhawyd bod cofnodion 14/03/24 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Rhys Jones.

**Materion yn codi**
Gofynnwyd y Cadeirydd i'r Clerc nodi bod cyfarfod 9fed o Fai, 2024 yn gyfarfod blynyddol a bod angen ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd.

**Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy**
Nodwyd ein bod wedi cytuno i dalu'r yswiriant o £196.59 yn llawn ar Gae Chwarae, Rhydyclafdy. Nodwyd bod Eleri yn awyddus i ddechrau'r polisi 01.06.24. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu'r siec yn ystod y cyfarfod nesaf, ac yna ei throsglwyddo i Eleri fel y gallant adneuo'r siec.

**Gohebiaeth**

**Gosod Plac/Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**

Trafodwyd pa opsiwn y dylem ei ddefnyddio ar gyfer yr ysgrifen i roi ar y garreg gilbost. Cytunwyd y byddem yn defnyddio ychydig eiriau o'r ddau gynnig gan Gyngor Cymuned Llannor a Buan.

Cytuwnyd y byddai'r Clerc yn ebostio Haydn Jones er mwyn gofyn:-

1) Os ydynt yn hapus hefo'r cynnig ysgrifen o'r newydd ?
2) Os ydynt yn hapus i Iestyn Tyne barhau i ysgrifennu cwpled o'r newydd ?
3) Os ydynt wedi meddwl am unfan i leoli'r garreg ?

**Casglu Ysbwriel**

Trafodwyd y pryder bod biniau ysbwriel yn cael eu cadw tu allan i dai ym Mhentre Rhydyclafdy am ddyddiau ar y tro, yn hytrach na'u cadw'n syth ar ôl eu casgliad wythnosol. Nodwyd y Cadeirydd bod Annwen Davies wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd a bod y mater mewn llaw.

**Ebost Deryck, Archwilio Cymru**

Trafodwyd ebost Deryck, Archwilio Cymru a nodwyd y Cadeirydd y byddem yn cynnal archwiliad allanol mawr eleni.

**Ebost gan Glerc Cyngor Cymuned Garndolbenmaen – Chwilio am gefnogaeth parthed Cynllun Heddlu Ysgolion**

Bu i ni drafod cynnwys yr ebost hwn, a chytunwyd i gefnogi'r cais. Clerc i yrru ebost i Liz Saville Roberts/Mabon ap Gwynfor ar ran Cyngor Cymuned Buan.

**Cais Cynllunio**

**Diweddariad Rhif Achos – G23/0281** – Sied fawr wedi cael ei chodi yn Yr Ynys, Boduan heb gais cynllunio. Nodwyd nad oes neb wedi gweld cais cynllunio yn cyfeirio at hyn. Bu i'r Clerc gysylltu gyda Aneurin Môn Parry o'r Adran Gynllunio, a bu iddo egluro'r canlynol :

1) Bod Elan Mared wedi bod allan ar y safle yn cwblhau'r "Archwiliad Cychwynol", a bod yr achos wedi cael ei roi mewn "medium risk priority".
2) Bu iddynt gadarnhau na ydynt wedi gweld yr un cais cynllunio ar gyfer yr achos yma.
3) Nodwyd bod y sied yn gymharol guddiedig o dan gysod y coed.
4) Nid oedd gan AMP ddim problem o ran edrychiad y sied.
5) Nodwyd bod AMP i gysylltu hefo'r perchennog er mwyn trafod y gwyn a thrafod y cais cynllunio, ac yna bydd yn trefnu i'w gyfarfod ar safle.

**Cais Cynllunio- C24/0222/33/LL – Land at Madryn Farm.**

Bu i ni drafod y cais hwn a phenderfynwyd ei gefnogi. Dangosodd y Cynghorydd Wynn Davies ddiddordeb yn y cais ac yna ni gymerodd ran yn y drafodaeth.

Mae'r cais yma yn mynd i ddwad a gwaith i'r ardal, ac maen bwysig i ni gefnogi'r busnes lleol hwn.  Roedd pawb o'r farn bod eisiau cefnogi hogiau ifanc ar eu menter busnes.

**Materion ariannol**
Cysoniad banc o ddyddiad:
04/02/24 – 03/03/24 - £1,625.87c
04/03/24 – 03/04/24 - £6,627.34c

Cafodd 4 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Phill Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200792 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yn Twnti | £20.00 |
| Siec Rhif 200793 | Cyflog y Clerc (Mis 1) | £153.60 |
| Siec Rhif 200794 | Costau teithio'r Clerc | £6.30 |
| Siec Rhif 200795 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 1) | £38.40 |

**Lightsource (Fferm Paneli Solar)**
Cadarnhawyd bod taliad o £5,360.57 wedi ei wneud i'r cyfrif 15/03/2024. Bu i'r Clerc yrru ebost iddynt 08/04/24 yn diolch iddynt am yr arian.

**Mantolen Cyngor Cymuned Buan 01/04/23-31/03/24**
Mae'r Clerc wedi cwblhau mantolen Cyngor Cymuned Buan ar gyfer 01/04/23-31/03/24, bydd trefniadau yn cael ei wneud i gylchredeg hon i'r Cynghorwyr i gyd.

**Cysoniad Banc Mawrth 2024**
Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cwblhau'r dasg yma a chytunwyd y byddai DLLW yn bwrw golwg drosti er mwyn gwneud yn siwr ei bod yn gywir.

**Unrhyw fater arall**
Yn dilyn y cyfarfod hwn bu i'r Clerc dderbyn ebost gan yr Adran Briffyrdd yn cadarnhau'r canlynol :

Arwydd Boduan
Mae'r Archwiliwr Priffyrdd wedi ei roi ar raglen gwaith y gweithlu.

Pont Sarn Glorian, Ceidio
Mae bwriad rhoi draen newydd yn y lleoliad yma a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael. Hefyd, bydd archwiliad rheolaidd am dyllau yn cael ei wneud ac unrhyw waith brys yn cael sylw priodol.

Capel, Rhydyclafdy
Mae'r twll bellach wedi cael sylw.

Cwterydd wedi blocio
Mae'r gwaith o'u clirio eisoes wedi'i gwblhau.

Ail-wynebu o'r Efail i'r Ffordd Fawr
Oherwydd cyflwr lôn Mynydd Nefyn mae hon wedi cael ei blaenoriaethu felly nid oes bwriad i wneud mwy o waith ar y ffordd uchod yn y dyfodol agos.

Draen ger yr Hen Bost ym Moduan
Nodwyd bod dŵr yn parhau i or-lifo drosti. Gofynnwyd i'r Clerc adrodd hyn i'r Adran Briffyrdd.

Nodwyd bod angen i'r Glerc nodi'r gwyn i'r Rheolwr Gwastraff bod y broblem yn parhau o safbwynt bod nwyddau ail-gylchu yn fflio allan o'r lorri yn ardal Bronallt, Ceidio, sy'n gadael yr ardal o gwmpas yn flêr.

**Tendr torri gwellt Eglwys Boduan, Llanfihangel a Chae Chwarae Rhydyclafdy**
Agorwyd dau dendr gan y Cadeirydd yng ngwydd y Cyngor yn unol â rheol 65 o'r Rheoliadau Defydlog. Sylwyd fod y ddau ddyfynbris yn agos iawn i'w gilydd, gyda £390 o wahaniaeth yn y gwaith.
Trafodwyd y ddau bris a phenderfynwyd i dderbyn pris "F Jones & S Arnott" fel a ganlyn:

a) Mynwent Llanfihangel – ei dorri dwy waith y flwyddyn - £450
b) Cae Chwarae Rhydyclafdy – edrych ar ol y cae chwarae am y tymor 24/25 – isafswm o 3 toriad - £750
c) Eglwys Boduan – Edrych ar ol mynwent yr Eglwys am y tymor 24/25 – isafswm o 3 toriad - £1,100

Derbyniwyd ebost gan "F Jones a S Arnott" 12/03/24 a oedd yn egluro eu pris:

- Nodwyd bod y pris am dorri'r cae chwarae yn Rhydyclafdy yn cynnwys yr union yr un peth a sydd wedi cael ei wneud yn waith yn y blynyddoedd cynt, sef torri'r cae a chodi'r gwellt, strimio'r ymylon o amgylch y cae, strimio o amgylch y maes parcio a hefyd tu allan i'r ffens ar ochr y lôn a chwythu'r llwybrau er mwyn ei gadw yn daclus.
- Cadarnhawyd bydd y gwaith yma yn cael ei wneud yn fisol o fis Ebrill i fis Hydref, o brofiad mae angen ei wneud mor aml a hyn, neu mae'n amhosib i blant chwarae yno.

Nodwyd mai nid y tendr hwn oedd y tendr isaf ond gweithredwyd yn unol â rheol 66 o'r Rheoliadau Sefydlog, sef "ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf".

Y rheswm am ddod i'r penderfyniad yma oedd fod "F Jones a S Arnott" wedi gweithio i'r Cyngor am nifer o flynyddoedd bellach, ac roedd safon eu gwaith bob amser yn arbennig o dda.

Hefyd teimlwyd nad oedd digon o wahaniaeth yn y ddau dendr i newid ymgymerwr, ac na ddylid rhoi un rhan o'r gwaith i un ymgymerwr, a'r rhan arall i'r ymgymerwr arall – byddai hyn yn cymhlethu pethau gan mai fel un tendr yr hysbysebwyd y gwaith.

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r ymgymerwr a fu yn aflwyddiannus. Cytunwyd y byddai'r Is-gadeirydd yn hysbysu "F Jones a S Arnott" eu bod yn llwyddiannus.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 09/05/24 yn Tu Hwnt i'r Afon am 7.30yh.